**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2022 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | M Jones | R Fogarty |
| A M Day | S M Jones | S Bennett |
| P Downing | E J King | P N Bentu |
| C R Doyle | E T Kirchner | A Davis |
| M Durke | H Lawson | C M J Evans |
| C R Evans | A S Lewis | M Bailey |
| V M Evans | M B Lewis | N Furlong |
| E W Fitzgerald | W G Lewis | H J Gwilliam |
| R Francis-Davies | P Lloyd | V A Holland |
| L S Gibbard | P M Matthews | D H Jenkins |
| F M Gordon | P N May | S Joy |
| K M Griffiths | D Phillips | S E Keeton |
| J A Hale | C L Philpott | M W Locke |
| T J Hennegan | S Pritchard | N L Matthews |
| C A Holley | A Pugh | J D McGettrick |
| P R Hood-Williams | K M Roberts | F D O'Brien |
| B Hopkins | B J Rowlands | A J O'Connor |
| D H Hopkins | R V Smith | J E Pritchard |
| L James | A H Stevens | S J Rice |
| O G James | R C Stewart | M S Tribe |
| Y V Jardine | G D Walker | R A Williams |
| J W Jones | L V Walton | A J Jeffery |
| L R Jones | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, M H Jones, R D Lewis, L G Thomas a/ac W G Thomas

## 85. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a all fod gan gynghorwyr a/neu swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd taflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr M Bailey, S Bennett, P N Bentu, P M Black, J P Curtice, A Davis, A M Day, P Downing, P Downing, C R Doyle, M Durke, C R Evans, C M J Evans, V M Evans, E W Fitzgerald, R A Fogarty, R Francis-Davies, L S Gibbard, F M Gordon, K M Griffiths, H J Gwilliam, J A Hale, T J Hennegan, V A Holland, C A Holley, B Hopkins, D H Hopkins, L James, O G James, Y V Jardine, A J Jeffery, D H Jenkins, J W Jones, L R Jones, M Jones, S M Jones, S A Joy, S E Keeton, E J King, E T Kirchner, H Lawson, A S Lewis, M B Lewis, W G Lewis, P Lloyd, M W Locke, N L Matthews, P M Matthews, P N May, J D McGettrick, F D O'Brien, A J O'Connor, D Phillips, C L Philpott, J E Pritchard, S Pritchard, A Pugh, S J Rice, K M Roberts, B J Rowlands, R V Smith, A H Stevens, R C Stewart, M S Tribe, G D Walker, L V Walton, T M White ac R A Williams gysylltiad personol â Chofnod 95, "Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023-2024 - Ymgynghoriad"

2) Datganodd y Cynghorydd J D McGettrick gysylltiad personol â Chofnod 97 "Cwestiynau'r Cynghorwyr" - Cwestiwn 12.

## 86. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Seremonïol y cyngor a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2022.

2) Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2022 yn amodol ar ychwanegu'r Cynghorydd David Phillips at y rhestr o ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 87. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 88. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

**a) Cydymdeimladau**

**i) Y Cyn-Gynghorydd Huw Rees**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar y Cyn-gynghorydd Huw Rees. Bu Huw yn cynrychioli Ward Sgeti yn Ninas a Sir Abertawe rhwng 6 Mai 1999 a 4 Mai 2017. Gwasanaethodd Huw hefyd fel Swyddog Llywyddu (Cadeirydd y Cyngor).

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**b) Gwobrau'r Gymdeithas Rendro a Chladin wedi'u hinswleiddio (INCA) 2022**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod INCA ar flaen y gad o ran trawsnewid effeithlonrwydd ynni cartrefi a busnesau yn y DU. Eu nod yw cynrychioli'r diwydiant Inswleiddio Waliau Allanol drwy ragoriaeth dechnegol a chydweithio effeithiol.

Yn ddiweddar, cyrhaeddodd Cyngor Abertawe'r rhestr fer mewn dau gategori yng Ngwobrau INCA 2022. Y categorïau yw:

i) Rhagoriaeth Inswleiddio Waliau Allanol (IWA) - Rhagoriaeth Bensaernïol neu Effaith Amgylcheddol.
ii) Rendro yn unig – wedi'i inswleiddio mewn man arall. (Rhagor o gartrefi – Colliers Way, Pen-lan).

Dywedodd fod Cyngor Abertawe wedi ennill y wobr Rhagoriaeth Insiwleiddio Waliau Allanol (IWA) - Rhagoriaeth Bensaernïol neu Effaith Amgylcheddol yn y seremoni wobrwyo ar 17 Tachwedd 2022. Roedd y wobr mewn perthynas â gwaith Dat-garboneiddio/IWA yn Jones Terrace, Evans Terrace a Wilks Row.

**c) Her Ysgolion Cynaliadwy Llywodraeth Cymru**

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Dîm Cyfalaf yr adran Addysg am gyrraedd y rhestr fer am eu cais arloesol a chydweithredol ar gyfer Her Ysgolion Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Mae cynllun y Tîm i ddatblygu a chyflwyno adeilad ysgol gynradd garbon sero-net a all wneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd a'r dirwedd o'i gwmpas wedi cyrraedd y rhestr fer. Os fydd y cydweithio'n llwyddiannus yn y cam nesaf, bydd yn cynnwys dysgwyr, staff, rhieni, y cymuned a chadwyni cyflenwi drwy bob cam o'r gwaith dylunio, adeiladu, a bywyd gweithredol ysgol wirioneddol gynaliadwy yn Abertawe.

Bydd yr Her yn defnyddio agweddau cynaliadwyedd y cwricwlwm newydd a sut mae ein dysgwyr ifanc yn defnyddio hyn ar gyfer eu 'cymuned gynaliadwy ar gyfer dysgu' eu hunain.

**d) Gwobrau Tai Cymru 2022**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod Cyngor Abertawe wedi ennill Gwobr y Stori Dai Orau yng Ngwobrau Tai Cymru 2022. Mae'r Gwobrau'n dathlu rhagoriaeth o fewn sector Tai Cymru. Rhoddwyd y wobr i dîm “Rhagor o Gartrefi" Cyngor Abertawe ar gyfer cynllun Tŷ Bryn.

Cyflwynwyd y prosiect yn ystod y pandemig, i ddarparu llety parhaol a dros dro ychwanegol. Roedd yn cynnwys prynu hen ganolfan addysg, adnewyddu'r prif adeilad i ddarparu 4 fflat 1 ystafell wely, a phrynu 4 pod 1 ystafell wely a wnaed mewn ffatri ac yna eu gosod ar y safle gyda chraen.

## 89. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

**a) Cymorth a roddwyd gan Gyngor Abertawe yn ystod yr argyfwng costau byw**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ers dechrau'r flwyddyn, mae'r cyngor wedi talu bron £20m mewn grantiau i deuluoedd ac unigolion sy'n ei chael hi'n anodd, gan gynnwys mwy na 76,000 o daliadau costau byw, 40,000 yn rhagor o daliadau cymorth costau byw disgresiynol, 20,000 o daliadau tanwydd a 4,500 o daliadau i ofalwyr di-dâl.

Mae degau o filoedd o deuluoedd ledled Abertawe wedi elwa o filiynau o bunnoedd mewn grantiau a thaliadau eraill i'w helpu drwy'r argyfwng costau byw. Ond mae miloedd mwy sy'n gymwys am daliad cymorth tanwydd o £200 neu grant costau byw yn cael eu hannog i gyflwyno'u ceisiadau.

Cynhelir y cynllun taliadau tanwydd tan 5.00pm ar 28 Chwefror 2023 y flwyddyn nesaf ac mae'r cynllun cymorth costau byw disgresiynol yn cau ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Dylai unrhyw un sy'n meddwl y gall fod yn gymwys ond sydd heb wneud cais gyflwyno cais cyn bo hir.

Mae'r cymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol at unrhyw daliadau tanwydd y gaeaf a wneir gan Lywodraeth y DU i bensiynwyr drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae mwy o fanylion am y cynllun, y ffurflen gais ar-lein a Chwestiynau Cyffredin ar wefan y Cyngor www.abertawe.gov.uk/cymorthtanwydd

**b) Y Diweddaraf am y Gyllideb**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Cyllideb y DU wedi ei chyhoeddi ers cyfarfod diwethaf y cyngor. Methodd Canghellor y Trysorlys â chyhoeddi unrhyw gymorth ynni ar gyfer y sector cyhoeddus. Dewiswyd yn benodol i eithrio cymorth ynni ar gyfer Ysgolion, Cartrefi Gofal, a Chymuned. Dewis gwleidyddol gan y Llywodraeth Geidwadol oedd hwn. Dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai'r Llywodraeth yn newid ei meddwl ar y mater hwn.

**c) His Dark Materials**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'r Cynghorydd E J King yn agor yr Arddangosfa "His Dark Materials" yn Oriel Gelf Glynn Vivian yn ddiweddarach y noson honno. Mae'r arddangosfa'n rhad ac am ddim ac ar agor i bawb.

**d) Gorymdaith y Nadolig**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Dîm Digwyddiadau Arbennig y Cyngor am gynnal Gorymdaith Nadolig ardderchog yn ddiweddar. Roedd yr Orymdaith yn cynnwys dros 70 o atyniadau a fflotiau.

**e) Gyda'n gilydd dros y Nadolig**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y bydd Cyngor Abertawe, mewn partneriaeth â JR Events & Catering, yn rhedeg menter Gyda'n Gilydd dros y Nadolig unwaith eto eleni. Nod y digwyddiad yw darparu cinio Nadolig am ddim i'r rheini sy'n ddigartref, yn unig neu mewn angen. Caiff ei gynnal rhwng 12pm a 3.00pm ddydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 yn Neuadd Brangwyn. Anogir cynghorwyr ac eraill i wirfoddoli drwy e-bostio events@jr-eventsandcatrering.co.uk

**f) Prosiectau Mawr - Eden Las a Skyline**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf am ddau brosiect mawr o fewn Abertawe, sef Eden Las a Skyline.

**g) Martin Nicholls – Prif Weithredwr**

Llongyfarchodd Arweinydd y Cyngor Martin Nicholls a’i groesawu i'w gyfarfod cyntaf o'r cyngor ers cael ei benodi'n Brif Weithredwr Dinas a Sir Abertawe.

**90. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnwyd cwestiynau cyhoeddus mewn perthynas â Chofnod 92 "Ymrwymiadau Polisi - Y 100 Niwrnod Cyntaf" a "Chofnod 97 "Cwestiynau Cynghorwyr" - Cwestiwn 13.

**91. Datganiad Cyllideb Canol Blwyddyn 2022/23.(Llafar)**

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 ddiweddariad llafar ar Ddatganiad Cyllideb Canol Tymor 2022-2023.

**92. Ymrwymiadau polisi - Y 100 Niwrnod Cyntaf.**

Cyflwynodd Arweinydd y Cynghorydd adroddiad gwybodaeth a oedd yn tynnu sylw at gyflawniadau a llwyddiannau Cyngor Abertawe yn ystod y "100 niwrnod cyntaf", yn unol â'r Datganiad Ymrwymiadau Polisi y cytunwyd arno yn ystod cyfarfod y cyngor ar 7 Gorffennaf 2022.

**93. Council Procedure Rule 4 "Smoking / Refreshments / Mobile Phones / Comfort Break**

Yn unol â Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor gohiriodd yr Aelod Llywyddol y cyfarfod er mwyn hwyluso egwyl o 10 munud.

**94. Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor - 2023/2024.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn manylu ar gyfrifo sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer Dinas a Sir Abertawe, ei Gynghorau Cymuned/Tref ac Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer 2023/2024. Mae'n ofynnol i'r cyngor bennu Sylfeini Treth y Cyngor erbyn 31 Rhagfyr 2022.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Sylfeini Treth y Cyngor ar gyfer 2023/2024.

2) Yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'u diwygiwyd, dyma fydd cyfrifiad Dinas a Sir Abertawe ar gyfer y flwyddyn 2023/2024:

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer yr ardal gyfan** | 91,454 |
| **Ar gyfer ardaloedd Cynghorau Cymuned/Tref:** | |
| Llandeilo Ferwallt | 2,006 |
| Clydach | 2,561 |
| Gorseinon | 3,232 |
| Tre-gŵyr | 1,966 |
| Pengelli a Waungron | 447 |
| Llanilltud Gŵyr | 343 |
| Cilâ | 2,131 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 517 |
| Llangyfelach | 943 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,559 |
| Llanrhidian Isaf | 339 |
| Casllwchwr | 3,411 |
| Mawr | 755 |
| y Mwmbwls | 9,909 |
| Penllergaer | 1,418 |
| Pennard | 1,539 |
| Pen-rhys | 483 |
| Pontarddulais | 2,299 |
| Pontlliw a Thircoed | 1,006 |
| Porth Einon | 467 |
| Reynoldston | 317 |
| Rhosili | 207 |
| Y Crwys | 698 |
| Cilâ Uchaf | 598 |

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer ardal Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe** | 63,651 |

## 95. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) 2023-2024 - Ymgynghoriad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn hysbysu'r cyngor o Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) 2023-2024 ac yn amlinellu'r penderfyniadau a gynigiwyd gan yr IRPW. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys ymateb drafft argymelledig Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i'r ymgynghoriad, a gyflwynwyd ar 7 Tachwedd 2022.

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol drafft yr IRPW ar gyfer 2023-2024.

2) Mabwysiadwyd Adran 3 ac Atodiad A yr adroddiad fel ateb yr Awdurdod i'r IRPW.

## 96. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r enwebiadau/diwygiadau i wahanol Gyrff y Cyngor.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

1) **Pwyllgor Datblygu Corfforedig Trawsnewid Sefydliadol**
Tynnu enw'r Cynghorydd M Jones.
Ychwanegu lle Llafur gwag.

## 97. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd dau ar bymtheg (17) o 'Gwestiynau Atodol' ar gyfer Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngŵŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 6**
Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones am ddiweddariad ynghylch y porthladdoedd gwefru trydan ar gyfer cerbydau trydanol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cilâ.

**Cwestiwn 7**

Gofynnodd y Cynghorydd S J Rice, “Nawr bod cais Castell-nedd Port Talbot/Sir Benfro wedi’i gefnogi, a fyddai busnesau lleol yn Abertawe’n gallu cael mynediad at arian neu fudd-daliadau o hyd os bydd y cais Porthladd Rhydd yn llwyddiannus?”

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd un (1) 'cwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.50 pm

**Cadeirydd**